# CACHE Certificate Supporting Teaching and Learning in Schools Level 2



**Yn gryno**

Mae cymorth ystafell ddosbarth mewn ysgolion yn hanfodol er mwyn helpu plant gyrraedd eu llawn botensial – ac os yw gweithio mewn swydd gymorth yn apelio atoch chi, bydd y cwrs hwn yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol. Bydd disgwyl i chi ennill profiad ymarferol mewn ysgol yn y Cyfnod Sylfaen neu Gyfnodau Allweddol 2-4 am o leiaf un diwrnod yr wythnos fel gweithiwr neu wirfoddolwr, ac mae'n bwysig i chi drefnu eich lleoliad cyn i chi gofrestru.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un sydd eisiau gweithio gyda phlant mewn dosbarth.

...unrhyw un sydd eisiau bod yn gynorthwyydd ystafell ddosbarth neu'n gynorthwyydd cymorth dysgu

**Cynnwys y cwrs**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cwrs yn cydnabod y gwaith cymorth hanfodol a wneir mewn ysgolion; ac fe'i cynlluniwyd yn gymorth i ysgogi cynnydd a throsglwyddo ar draws gweithlu'r plant mewn ysgolion.

Mae'n datblygu gwybodaeth a fydd yn werthfawr i weithwyr gwirfoddol a gweithwyr sy'n cael eu talu, drwy astudio ystod o unedau sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant mewn ystafell ddosbarth. Caiff bob uned ei hasesu ar wahân drwy nifer o waliau asesu gwahanol

Ar ôl y cwrs hwn gallech symud ymlaen i Ddyfarniad neu Dystysgrif CACHE Lefel 3 mewn Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Ysgolion.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, mae CACHE yn argymell y dylai fod gennych 5 TGAU gradd c neu gymhwyster cyfatebol er mwyn ymdopi â gofynion y cymhwyster.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Os ydych chi'n gweithio mewn swydd wirfoddol, bydd angen i chi gael gwiriad DBS drwy eich lleoliad. Mae'n bosibl y codir tâl o £44 am hyn a gall gymryd amser.